# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o’r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 26 Ionawr 2016 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie, Ann Davies (Is-Gadeirydd), Richard Davies, Stuart Davies, Peter Duffy, Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler (Cadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Dewi Owens, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Gareth Sandilands, Barbara Smith, David Smith, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Pennaeth Dros Dro Cyllid ac Asedau (JG), Prif Swyddog (RW) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Ian Armstrong, Meirick Davies, Peter Arnold Evans, Carys Guy, Martyn Holland, Peter Owen, Merfyn Parry a/ac Bill Tasker

Ar y pwynt hwn, anfonwyd dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Ian Armstrong a oedd yn gwella yn Ysbyty’r Bwthyn Treffynnon, i'r Cynghorydd Peter Owen a oedd yn gwella’n dda ac yn derbyn gofal rhagorol yn y cartref. Hefyd i'r Cynghorydd Bill Tasker a oedd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr Arwel Roberts, Richard Davies, David Smith, Joseph Welch, Peter Duffy a Colin Hughes gysylltiad personol yn Eitem 6 - Cyllideb 2016/17 (Cynigion Terfynol - Cam 6)

Datganodd y Cynghorydd Huw Williams gysylltiad personol yn Eitem Rhif 8 – Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim materion brys.

Talodd yr Aelod Arweiniol Parth y Cyhoedd, y Cynghorydd David Smith deyrnged i gamau a gymerwyd gan staff Cyngor Sir Ddinbych yn ystod y tywydd drwg a rhybuddion llifogydd diweddar a oedd wedi digwydd dros gyfnod y Nadolig. Roedd gwirfoddolwyr wedi rhoi eu hamser i gynorthwyo a sicrhau trigolion yn ystod y cyfnod hwn o straen. Gofynnodd y Cynghorydd Smith fod ei ddiolch i swyddogion Sir Ddinbych am yr holl waith roeddent wedi ei wneud yn ystod y tri diwrnod dros y Nadolig yn cael ei nodi. Roedd y modd yr ymatebodd y gweithwyr i faterion yn y sir wedi bod yn rhyfeddol ac roedd yr holl aelodau yn llongyfarch pawb fu'n gysylltiedig. Roedd y Cynghorydd Bill Cowie hefyd yn dymuno cadarnhau'r datganiad gan y Cynghorydd David Smith.

Ar y pwynt hwn, llongyfarchodd y Cadeirydd Glwb Pêl-droed Dinbych ar gyrraedd rownd derfynol Cwpan Word a chwaraewyd y penwythnos blaenorol.

Hefyd, roedd y Cynghorydd Alice Jones yn dymuno llongyfarch yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans ar ennill gwobr fawreddog ffermio - Pencampwr Gwartheg yn y digwyddiad Stoc Tewion y Nadolig.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 20 Tachwedd 2015 ac 16 Ionawr 2016 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y rhestr o ymrwymiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.*

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2015.

Cynigiodd y Cadeirydd ei diolch i'r Cynghorydd Meirick Lloyd Davies a oedd wedi Cadeirio'r cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2015.

Materion yn codi

Tudalen 8, eitem 5.
Cadarnhaodd y Cynghorydd Alice Jones bod y wybodaeth wedi'i darparu i Simon Dean Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac roedd yn disgwyl yn bryderus am ymateb. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'n cysylltu â Simon Dean i ganfod pryd y gellid disgwyl ymateb.

Tudalen 10, Eitem 6 - Trydydd Pwynt Bwled
Y Cynghorydd Arwel Roberts - a oedd gwybodaeth fanwl wedi'i darparu.
Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid y rheswm pam na chyflwynwyd adroddiad ar wahân ar y wybodaeth i'r Cyngor oedd bod Adroddiad Rheoli'r Trysorlys yn cael ei gyflwyno yn y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 27 Ionawr 2016.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2015 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.*

## 6 CYLLIDEB AR GYFER 2016/17

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad y Gyllideb 2016/2017 (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Roedd yr adroddiad yn nodi goblygiadau Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol 2016/2017 a chynigion i gwblhau'r gyllideb ar gyfer 2016/2017.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys a chyflawnadwy cyn dechrau pob blwyddyn ariannol ac i osod lefel sy'n deillio o Dreth y Cyngor i ganiatáu i filiau gael eu hanfon at breswylwyr.

Mae’r Cyngor hefyd yn gorfod darparu trosolwg o broses y gyllideb ac effaith Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol a gwneud argymhellion ar gyfer gosod y gyllideb ar gyfer 2016/17, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

Roedd y Setliad a gyhoeddwyd ar 9 Rhagfyr 2015 yn llawer gwell na'r disgwyl gyda gostyngiad arian parod cyffredinol i Lywodraeth Leol o -1.4% a gostyngiad i Sir Ddinbych o 1.2%.

Roedd yr ystod o ostyngiadau ar draws cynghorau Cymru yn amrywio o -0.1% (Caerdydd) i -4.1% (Powys) gyda'r effaith yn gyffredinol yn waeth i siroedd gwledig. Roedd mecanweithiau ariannu gwaelodol blaenorol wedi cael eu tynnu o’r Setliad a dyna pam bod yr ystod yn gymharol eang.

Roedd y broses Rhyddid a Hyblygrwydd ar fin dod i ben gyda gosod cyllideb 2016/17 a bydd proses cyllideb newydd yn cael ei datblygu ar gyfer 2017/18.

Ym mis Rhagfyr 2015, roedd adroddiad i'r Cyngor Llawn yn nodi'r sefyllfa a rhagdybiaethau cyllideb diweddaraf, a oedd yn dangos bwlch cyllidebol sy'n weddill o £2filiwn. Mae'r bwlch hwn wedi ei gyfrifo gyda nifer o ragdybiaethau sydd wedi newid o ganlyniad i’r Setliad Amodol. Cafodd y rhain eu hegluro mewn manylder yn y gweithdy cyllideb gydag Aelodau ar 14 Rhagfyr 2015.

Roedd y newidiadau i werth y Setliad yn caniatáu ar gyfer cynnig i ostwng lefel y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor o 2.75% i gyfartaledd o 1.5%.

Cafwyd trafodaeth, a chodwyd y pwyntiau canlynol gan yr Aelodau:

- Roedd amrywiol awgrymiadau wedi cael eu codi mewn sesiynau cyllideb blaenorol a gofynnwyd am ddiweddariadau. Cadarnhawyd y byddai'r awgrymiadau a godwyd yn y sesiynau Cyllideb wedi cael eu dwyn ymlaen pe bai arbedion pellach yn ofynnol. Byddai'r awgrymiadau yn cael eu hystyried fel rhan o broses y gyllideb 2017/18.
- Codwyd diffyg taliadau sy'n ofynnol ar gyfer cynlluniau pensiwn, ynghyd â materion ynghylch cyfraniadau pensiwn athrawon. Eglurwyd y gwahaniaethau rhwng ariannu'r cynllun pensiwn Athrawon a'r cynllun

Llywodraeth Leol, gan gynnwys trin arian diffyg .. Eglurwyd bod y ddau gynllun pensiwn yn cael eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth y DU.

- Cadarnhaodd y Cynghorydd Joan Butterfield, fel Arweinydd y Grŵp Llafur oherwydd bod y Setliad gan Lywodraeth Cymru yn well na'r disgwyl, roedd y Grŵp Llafur yn cytuno i gymeradwyo'r cynnydd o 1.5% yn Nhreth y Cyngor Dywedodd y Cynghorydd Butterfield hefyd fod y Grŵp Llafur yn gobeithio y byddai'r Setliad ar gyfer 2016/17 yn gwarchod gwasanaethau ar gyfer y bobl fwyaf diamddiffyn ac ynysig o fewn y sir. Yna mynegodd y Cynghorydd Butterfield bryder ynghylch praesept yr Heddlu. Cadarnhawyd bod yr Heddlu a Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn gosod eu lefel eu hunain o Dreth y Cyngor a oedd yna'n cael ei ychwanegu at un y Cyngor Sir. Cadarnhaodd y Cynghorydd Brian Blakeley ei fod wedi mynychu Pwyllgor yr Heddlu a Throseddu y diwrnod cynt ac mai'r cynnydd yn y praesept gan yr Heddlu oedd 2.47%.
- Roedd cynnwys £0.5m o'r balansau fel rhan o'r cyllid o'r gyllideb ar gyfer 2015/16 yn cael ei gwestiynu. Gofynnwyd am faint y balansau a'r ddyled bresennol. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid fod y gyllideb ar gyfer 2015/16 wedi ei gosod gyda chyfraniad arian o'r balansau ac y byddai hyn yn parhau am dair blynedd ariannol. Byddai'r cyfraniad o falansau ond yn cael ei wneud os oes angen yn ystod y flwyddyn ariannol. . Felly os, er enghraifft, bod cynnyrch treth y cyngor ychydig yn uwch na'r hyn oedd wedi cael ei asesu yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn, efallai na fydd angen i'r swm a gyllidebwyd gael ei dynnu i lawr. Roedd lefel y ddyled net yn £191miliwn, a balansau cyffredinol yn £7.5miliwn. Byddai adroddiad manwl yn cael ei gyflwyno yn y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y diwrnod canlynol (27 Ionawr, 2016) a fyddai'n gosod y dangosyddion yn fanylach.

Ar y pwynt hwn, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd gan fod pensiynau wedi eu trafod, byddai'n ofynnol i Aelodau ddatgan cysylltiad personol os oeddent naill ai'n talu i mewn neu'n derbyn pensiwn addysgu/ Llywodraeth Leol.

- Roedd y gyllideb ynghylch Treth y Cyngor fel arfer yn cael ei dwyn gerbron y Cyngor Llawn ar yr adeg hon bob blwyddyn gan ei fod yn galluogi i filiau Treth y Cyngor gael eu paratoi cyn dechrau mis Ebrill.
- Ni allai'r mater o safbwynt unrhyw broblemau y gellid eu rhagweld yn y 12 mis nesaf gael eu gwarantu ar hyn o bryd. Gallai dosbarthiad a thoriadau i grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru fod yn broblem fel y gallai dadleuon parhaus am ariannu i gynghorau gwledig. Trafodwyd y mater o gost cartrefi gofal/nyrsio preifat hefyd yn fyr.

Mynegodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans ei werthfawrogiad fod y Setliad wedi bod yn llawer gwell na'r disgwyl. Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd cyfanswm o £28 miliwn mewn toriadau wedi ei wneud ond roedd Sir Ddinbych yn parhau i fod yn Gyngor oedd yn perfformio'n dda. Roedd y Cyngor wedi cyfathrebu gyda thrigolion a oedd wedi mynegi eu bod yn ffafrio Treth y Cyngor isel ac i wasanaethau barhau i gael eu darparu. Diolchodd y Cynghorydd Evans i'r Swyddogion Cyllid am eu gwaith mewn sefyllfa anodd dros ben.

Mynegodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau hefyd ei ddiolch i'r holl Aelodau a oedd wedi cymryd rhan yn y broses, ynghyd â Swyddogion, y Prif Gyfrifydd, Steve Gadd a'r Prif Swyddog Cyllid, Richard Weigh am eu gwaith caled.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad.

Ar y pwynt yma, gofynnodd y Cynghorydd Eryl Williams am newid bach i Atodiad 1 i ddiwygio'r geiriad i "defnydd posibl o falansau" yn hytrach na "defnydd o falansau" - roedd pob aelod a oedd yn bresennol yn gytûn.

***PENDERFYNWYD:***

- *Cyngor yn nodi effaith Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol ac nad oedd angen unrhyw arbedion pellach oni bai am y £5.2miliwn sydd eisoes wedi'i gymeradwyo gan wasanaethau ar gyfer 2016/17.*
- *Cyngor yn cymeradwyo cynigion y gyllideb a nodir isod, yn seiliedig ar Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol er mwyn cwblhau'r gyllideb 2016/17:*
  - *(i) I gynyddu cyllid i ysgolion i fodloni'r lefel ddiogelu genedlaethol o +1.85%.*
  - *(ii) Neilltuo cyllideb wrth gefn un flwyddyn o £480k ar gyfer 2016/17 er mwyn lliniaru'r risgiau i gyflawni'r gyllideb a nodir yn yr adroddiad hwn*
  - *(iii) Cymeradwyo'r cynnydd cyfartalog o ganlyniad yn Nhreth y Cyngor o 1.5%.*
- *Diwygio'r geiriad yn Atodiad 1 o "defnydd o falansau" i "defnydd posibl o falansau"*

**Ar y pwynt hwn (11.40 am) cafwyd egwyl o 20 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 12.00 p.m.**

## 7 CYMERADWYAETH FLYNYDDOL CYNLLUN LLEIHAU TRETH Y CYNGOR

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad Cymeradwyaeth Flynyddol i'r Cynllun Gostyngiad yn Nhreth y Cyngor (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Roedd y Ddeddf Diwygio Lles 2012 yn cynnwys darpariaethau i ddiddymu budd-dal treth y cyngor yn ei ffurf bresennol ar draws y DU. O 31 Mawrth 2013 roedd budd-dal treth y cyngor wedi dod i ben ac mae'r cyfrifoldeb am ddarparu cefnogaeth ar gyfer treth y cyngor a'r arian sy'n gysylltiedig ag ef, wedi cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yng Nghymru, wedi cyflwyno cynllun newydd i ddarparu cymorth Treth y Cyngor a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Ionawr 2013.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r ddwy set o reoliadau ar 19 Ionawr 2016 ac roedd yn ofynnol i Reoliadau Cynlluniau Gostwng Treth y Cyngor newydd a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau diwygiadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2016 gael eu mabwysiadu erbyn 31 Ionawr 2016.

***PENDERFYNWYD:***

- *Aelodau i fabwysiadu'r Cynlluniau Lleihau Treth y Cyngor a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau Diwygiadau i Ofynion Rhagnodedig (Cymru) 2016, o ran blwyddyn ariannol 2016/17.*
- *Bod Aelodau'n cymeradwyo'r 3 elfen ddewisol o'r cynllun, a ddangosir yn adran 4.1 o'r adroddiad, yn parhau yn 2016/17.*

## 8 YMATEB DRAFFT I'R BIL LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Hugh Evans yr Ymateb Drafft i Fil Llywodraeth Leol (Cymru) (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Rhoddwyd eglurhad ar yr ymarfer ymgynghori sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru ar ddarpariaethau Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft.

Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno i benderfynu ar ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad.  Roedd ymateb wedi'i gyflwyno eisoes ar y Papur Gwyn, ond roedd y Mesur Drafft angen ymatebion helaeth i'w cyflwyno erbyn 15 Chwefror 2016.

Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd strwythur y Bil Drafft a oedd mewn 8 rhan fel a ganlyn:-

- Rhan 1 – Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau Sir
- Rhan 2 - Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol
- Rhan 3 - Hyrwyddo Mynediad i Lywodraeth Leol
- Rhan 4 – Swyddogaethau Cynghorau Sir a'u Haelodau
- Rhan 5 - Cynghorau Sir: Gwell Llywodraethu
- Rhan 6 - Cynghorau Cymuned
- Rhan 7 - Materion Gweithlu a
- Rhan 8 - Cyffredinol ac Atodlenni

Yn ystod yr esboniad o'r Bil Drafft gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd, cynhaliwyd trafodaethau a gofynnwyd cwestiynau gan wahanol Aelodau.  Oherwydd pwysigrwydd y Bil Drafft a maint y wybodaeth sydd i'w chymryd i mewn, gofynnodd nifer o Aelodau i weithdy gael ei gynnal a fyddai'n rhoi cyfle i'r Aelodau archwilio'r Bil Drafft yn fanylach.

Yn dilyn trafodaeth,

***PENDERFYNWYD***

*(i) Bod y Cyngor yn nodi cynnwys y Bil Drafft ac yn ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad drafft a nodir yn Atodiad 3.*

*(ii) Yn dilyn gweithdy'r Cyngor, bod y Cyngor yn awdurdodi'r Arweinydd mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr Grŵp i gwblhau telerau ymateb y Cyngor gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Cyngor.*

## 9 RHYBUDD O GYNNIG

Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Huw Williams:
“Roedd Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn credu y dylai’r sir ddarparu gwe ddarllediadau o holl gyfarfodydd y Cabinet ac Archwilio yn y dyfodol, er mwyn gwella canfyddiad y cyhoedd o'r Cyngor Sir”.
Wedi’i ohirio tan y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn a oedd i'w gynnal ar 23 Chwefror 2016.

## 10 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Cefyn Williams y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

“Dros y blynyddoedd roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi bod yn gwerthu ei stoc o dai Cyngor, gan fod gennym dal rywfaint ar ôl rydym yn gofyn i'r pwyllgor ddiddymu'r arfer hwn gan ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn eu cadw ar gyfer teuluoedd nad ydynt yn gallu fforddio prynu tai ar y farchnad agored".

Cafwyd trafodaeth a dywedwyd na ellid yn gyfreithiol cyflwyno’r Rhybudd o Gynnig i "ddileu" y Cynllun Hawl i Brynu. Felly, cytunwyd i ddiwygio'r cynnig fel a ganlyn:

“Cyngor yn awdurdodi swyddogion i weithio ar achos busnes i atal Hawl i Brynu y byddent wedyn yn ei gyflwyno i’r Cyngor"

***PENDERFYNWYD*** *bod y Rhybudd o Gynnig diwygiedig “Cyngor yn awdurdodi swyddogion i weithio ar achos busnes i atal Hawl i Brynu y byddent wedyn yn ei gyflwyno i’r Cyngor"*

## 11 RHYBUDD O GYNNIG

Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Dewi Owens:
“Mae Cyngor Sir Ddinbych yn:
- Gwerthfawrogi gwaith Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.
- Mynegi pryder dros ddargyfeirio adnoddau o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru i Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru
- Galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu er mwyn gwarchod annibyniaeth Cynghorau Iechyd Cymuned unigol Cymru”.

wedi’i ohirio tan y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn a oedd i'w gynnal ar 23 Chwefror 2016.

## 12 RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd eisoes).

***PENDERFYNWYD*** *– cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.45pm.**